# CANLLAW CWRICWLWM IECHYD A LLES

TREES FOR CITIES

| HYDREF 1 | CWANWYN 1 | HAF 1 |
|---|---|---|
| Dangos gofal a chonsyrn dros bethau byw, gofalu am blanhigion bach, yn y tŷ gwydr a'r ystafell ddosbarth i'w cadw'n gynnes ac i'w dyfrio. Ydyn nhw'n tyfu'n gyflymach na'r un planhigion wedi'u plannu allan? | Ewch ar daith natur a gwrando ar synau'r ardd. Ysgrifennwch neu recordiwch y synau rydych chi'n eu darganfod. | Ysgrifennwch gerdd acrostig am un o'r llysiau rydych chi wedi'u tyfu. Perfformiwch eich darn o farddoniaeth lysiau gan ddefnyddio technegau sain, drama a pherfformio. |
| Trafodwch sut y gellid defnyddio Gardd Llawn Bwyd/man awyr agored i helpu i wneud amser chwarae yn hapusach. | Gwnewch sgerbwd gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyn a nodi gwahanol rannau'r corff. | Gan ddefnyddio'r testun 'Dyma Ni', cynhaliwch wers ABCh yn eich Gardd Llawn Bwyd yn trafod sut rydyn ni'n trin anifeiliaid a phobl. |
| Coginio a Maeth – Nodwch y gwahanol fitaminau sydd yn y gwahanol lysiau sy'n tyfu yn eich Gardd Llawn Bwyd. Pam mae'r fitaminau yn y llysiau hynny'n bwysig? | Coginio a Maeth – Smwddis llysiau neu smwddis ffrwythau. Gwnewch eich ryseitiau smwddi eich hun. | Defnyddiwch yr Ardd Llawn Bwyd fel ffordd o drafod sut y gallwn wneud dewisiadau cadarnhaol i ofalu am ein hunain ac eraill (e.e. bwyta'n iach). |
| Darllenwch 'Addewid y Penbwl' yn eich Gardd Llawn Bwyd ac yna trafodwch beth yw addewid, ac a yw byth yn iawn i dorri un? | Cyfeillgarwch/Perthnasoedd – Ymchwiliwch i gyfaill blanhigion a sut mae planhigion yn cefnogi ei gilydd. Edrychwch ar waith Wohlleben, yn arbennig 'The Hidden Life of Trees'. Sut mae hyn yn cysylltu â'n dealltwriaeth ein hunain o gyfeillgarwch/perthnasoedd? | Meddylfryd Twf – Gan ddefnyddio cylch bywyd planhigyn, sut gallwn ni gysylltu hyn â sut rydyn ni'n datblygu meddylfryd twf? Beth mae angen i ni ei wneud i fwydo'n meddyliau, fel mae angen i blanhigyn ei fwydo ei hun? |
| Ioga Llysiau – Symudiadau dawns llysiau, dawns wedi'i hysbrydoli gan dwf planhigyn o hedyn i goeden. | Pethau Byw – Enwch y chwyn yn eich Gardd Llawn Bwyd a chreu canllaw adnabod ar gyfer y dosbarth. | Rhoi – Trefnwch ymweliad â chanolfan leol i'r henoed a mynd â rhywfaint o'r cynnyrch rydych chi wedi'i dyfu. A allwch chi wneud darn o waith celf wedi'i ysbrydoli gan natur i'w rannu â nhw hefyd? |
| Gwrth-fwlio – Pa enghreifftiau o blanhigion/pryfed fydden ni'n dweud sy'n cael eu 'bwlio' yn yr Ardd Llawn Bwyd? Llwynogod ac adar, pa enghreifftiau sy'n fater o oroesi? Ystyriwch sut mae'r ysglyfaeth yn teimlo. Cysylltwch hynny â sut y mae'r bwli a'r un sy'n cael ei fwlio yn teimlo efallai. Ysgrifennwch stori foesol gan ddefnyddio beth sy'n digwydd ym myd natur fel sbardun. | Derbyn – Trafodwch weithredoedd o garedigrwydd, gwneud eraill yn hapus. Cysylltwch hynny ag effeithiau ar ein hamgylchedd. Cymharwch â sut rydych chi'n treulio bwyd. | Dw i'n Iach – Ymchwiliwch ac arsylwch ar rôl mwydod a thrychfilod yn treulio deunydd organig ac yn helpu i greu pridd sy'n llawn maethynnau. |

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust